COFNODION DRAFFT CYNGOR BRO LLANGELER 30 – 03 – 2026

Cofnodion Drafft Cyfarfod Misol Nos Lun Mawrth 30ain 2026 yn Neuadd yr Eglwys, Penboyr, Velindre

1. **03/26 PRESENNOL:** Yn y gadair – Cyng. Gethin Richards(yn abs y Cadeirydd), Cynghorwyr: Delyth Evans, Richard Evans, Angharad Edwards, Jamie Ayres, Aled Eynon, Eleri Samson, Adrian Thomas, Antoni Schiavone, Dilwyn Smith
Clerc – Stella Jones.
Hefyd yn bresennol: Cyng Sir Hazel Evans a'r Cyfieithydd

Cydymdeimlodd y Clerc a'r Cyng. G Richards ar farwolaeth annisgwyl ei dad a safwyd am funud o dawelwch. Diolchodd G Richards am bob arwydd o gydymdeimlad iddo ef a'i deulu yn ystod y cyfnod anodd yma.
Estynwn ein cydymdeimlad hefyd a'r Cynghorydd A Edwards ar farwolaeth ei mamgu.

2. **03/26 YMDDIHEURIADAU:** Cyng Ken Howell, John Crossley, Marc Rees,

3. **03/26 DATGANIADAU DIDDORDEB :-** Neb

4. **03/26 HEDDLU:** – PCSO J Kedward – *ymddiheiriad*

5. **03/26 COFNODION:**
i. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod Misol Chwefror 23ain 2026
Cynnig: Cyng A Schiavone Eilio: Cyng E Samson

6. **03/26 MATERION YN CODI o'r COFNODION**
10.iii.05/21 Byrddau Llwybrau Gwlân – *delio dan adroddiadau pwyllgor*
10. ii.06/24 Les Cae Chwarae Parc Puw – *mae'r les yn barod i'w arwyddo. Cytunwyd bod angen cael llyfr yn recordio pob gwiriad diogelwch ac i'r Cyngor arwyddo hwn o bryd i'w gilydd a'r tro cyntaf yng nghyfarfod blynyddol y Cyngor.*
7.xix. 05/25 Les Toiledau Parc Puw – *dyddiad cymryd drosodd 1af Ebrill 2026 ac fe arwyddwyd y les.*
10.i. 02/25 Diffibrilwr i Cwmpengraig - *diweddariad – mae aelodau Capel Soar wedi cytuno i'r Cyngor osod Diffibrilwr ar wal ffin y Capel. Nododd y Clerc bod un Bancy Ffordd wedi cael ei ddefnyddio rhyw wythnos yn ôl a bod eisiau archebu padiau newydd. Gofynnodd hefyd i bob gwarchodwr diffibrilydd wirio dyddiad mynd allan o ddât erbyn y cyfarfod nesaf*

7. **03/26 GOHEBIAETH:**
i. ebost – CSG – Ceisiadau Cynllunio 23/02/2026 - 27/02/2026 – *cylchlythyrwyd*
ii. ebost – CSG – cau hewl dros dro Cwmduad SA33 6XR 04 - 06/03/2026 (rhwng 09:00 and 18:00 hrs) – *cylchlythyrwyd*
iii. ebost – CSG – cau ffordd dros dro - yr U5470 o Felindre, Llandysul – cylchlythyrwyd
iv. ebost – CSC – Ceisidau Cynllunio 02/03/2026 - 06/03/2026 – cylchlythyrwyd
v. ebost – CSC – cau hewl dros dro rhwng 09.00 a 18.00 - Cwmduad SA33 6XR 9/03/2026 – cylchlythyrwyd
vi. ebost – CSG – Cau hewl ar frys U5517 Pencader - Pontweli, Llandysul - 06.03.2026 – 1 Diwrnod - cylchlythyrwyd
vii. ebost – CSG – cau hewl dros dro *B4333* Maudlands Cynwyl Elfed SA38 9NN 15.03.26 – cylchlythyrwyd
viii. ebost – EFFAITH - cylchlythyr allanol pob mis Llais – *cylchlythyrwyd*
ix. ebost – CSG – Cau hewl dros dro C1296 Velindre SA44 5JB – *cylchlythyrwyd*
x. ebost – CSG – Ceisidau Cynllunio 09/03/2026 - 13/03/2026 – *cylchlythyrwyd*
xi. ebost – ULIC – E-bulletin 19 – *cylchlythyrwyd*
xii. ebost – CSG – Ceisidau Cynllunio 16/03/2026 - 20/03/2026 – *cylchlythyrwyd*
xiii. ebost – Bwletin CHTh – *cylchlythyrwyd*
xiv. ebost – ULLC – E Bwletin 20 – *cylchlythyrwyd*
xv. ebost – Gwahoddiad i Lawnsiad Llwybr Dyffryn Teifi 25/04/2026 2yp – *cylchlythyrwyd*
xvi. ebost – CSG - cau ffordd dros dro – U5413 o Gastellnewydd Emlyn – *cylchlythyrwyd*
xvii. ebost – CSG – gorchymyn - Sir Gaerfyrddin (gosod terfyn cyflymder o 30mya) 2026 - *cylchlythyrwyd*
xviii. ebost – Awdit Cymru – hysbysiad o Archwiliad Llawn am 2025-26
xix. ebost – Antur Cymru – hysbysiad am orffen cytundeb cyflogres – *mae'r Clerc yn chwilio am rhywun i wneud y gwaith am bris rhesymol*
xx. ebost – C.Ff.I - Llythyr o ddiolch am nawdd
xxi. ebost – Arwyn Vobe – dyfnbris am wneud PAYE – *gwelwyd bod y pris yn rhy uchel*
xxii. ebost CSG - Ceisiadau Cynllunio 23/03/2026 - 27/03/2026 – *cylchlythyrwyd*
xxiii. ebost - SWWCJC - DA ar gyfer yr SDP – *cylchlythyrwyd*

8. **03/26 CYNLLUNIO**
CEISIADAU CYNLLUNIO – YMGYNGHORI LLAWN
PL/10518 – Gosod 2 pod glampio a wgaith cysylltiedig, fel rhan o waith wedi'I ddatblygu fel rhan o Gynllun Arallgyfeirio Ffermydd - Ffrydiau Gwynion, Rhos, Llandysul, SA44 5HF – cefnogi

9. **03/26 MATERION ARIANNOL**
1. Cyllid – Cyfrif Cyfredol - Arian yn y Banc ar 26/03/2026 - £30,498.42
Cyfrif wrth Gefn £46,438.38
2. a.Anfonebau
i. TRYWYDD [Mawrth] £00.00

_____Cadeirydd _____Dyddiad

ii. YSGOL SUL ST LLAWDDOG HALL [Hirio Neuadd] £12.75
iii. LLOYDS BANK [ffi] £6.25
iv. MARGARET EVANS (trydan i golau nadolig Pentrecwrt) £20.00
v. CCC (golau stryd).....£11,387.52
[Ynni £3,630.48 , Cynnal a Chadw £5,859.12 , TAW £1,897.92]
vi. ULIC – aelodaeth £734.00

b. S/O
Cyflog y Clerk £580.00

3. Credid
Ad-daliad TAW £3,594.08

4. Apêl am Nawdd Ariannol
Eisteddfod Llangollen – *ddim yn lleol*

10. 03/26 MATERION ANGEN TRAFODAETH
i. Arwyddo Les Toiledau Parc Puw – *gwnaethpwyd hyn*
ii. Agor y Toiledau – *Cytunwyd bod angen agor y toiledau cyn gynted a phosibl- mae angen trefnu yswiriant, trydan a chael profi'r dŵr am 'Legionella'*

11. 03/26 ADRODDIAD PWYLLGOR
Is Bwyllgor Byrddau Llwybrau Gwlân – *gwelwyd dau enghraifft o arddulliau posibl ar gyfer golwg orffenedig y bwrdd Gwybodaeth. Bydd yn gwneud rhagor o waith eto erbyn y cyfarfod nesaf.*

12. 03/26 Dyddiad y Cyfarfod nesaf a lleoliad
Nos Lun Ebrill 27ain 2026 am 7.30yh Neuadd yr Eglwys, Penboyr – bydd cyfarfod mis nesaf wedi ei newid i'r 20ed

13. 03/26 SYLWADAU'R CYNGHORWYR
1. Cyng. D Evans – i mae tipio yn dal i ddigwydd ar yr encilfa ger Rhosgeler
2. Cyng A Schiavone – i. Dwedodd bod wedi cael ar ddeall gyda gweithwyr y Cyngor Sir y bydd sawl un o'r hewlydd yn y plwyf yn cael blaenoriaeth yn y flwyddyn ariannol nesaf.
3. Cyng A Eynon – i. Gofynnodd beth oedd yr holl glirio tir ar dop y rhos rhwng Tycoch a Crossroads – *dwedwyd bod perchnogion newydd i'r tir a'i bod yn tacluso a gwella'r tir.*
4. Cyng H Evans – i. Dwedodd ei bod wedi cael hysbysiad wrth yr adran gorfodaeth ynghylch caniatad cynllunio ar y 'Toll Gate' ger Llandysul

Daeth y cyfarfod i ben am 8.30yh

_____Cadeirydd _____Dyddiad